


# Gro Isa

## Gwybodaeth am y Llwybr

Gellir dilyn taith linellol hyfryd dros dir pori at lannau'r Afon Ddyfrdwy o Dref Marchnad Corwen.

*Pellter:* 1.7 cilomedr / 1 filltir.

*Neilltuwch:* 30 – 45 munud.

*Giatiau:* Lleiafswm cliriad o 110cm.

*Giatiau Mochyn:* Mesuriadau'r lloc lleiaf ydi 75cm wrth 112cm.

*Llethrau:* Un llethr serth i lawr at lan yr afon.

*Arwyneb y Llwybr:* Tir pori yn bennaf gyda rhywfaint o bridd moel a gwreiddiau.

*Lled y Llwybr:* Lled diffiniedig ydi 40cm gan leiaf; fodd bynnag, mae arwyneb glaswellt ar y naill ochr i hyn, y gellir ei ddefnyddio.

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

*I ddefnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus:* Fe leolir arosfannau bysiau yn y prif faes parcio oddi ar Stryd y Farchnad. Mae gwasanaethau X5 ac X94 yn stopio yma. Gweler **www.traveline-cymru.info** i gynllunio'ch siwrne.

*Parcio* ar gael yn y prif faes parcio oddi ar Stryd y Farchnad. Mae naw lle parcio i'r anabl. Rhaid i ddeiliaid bathodynnau glas dalu ac arddangos.

*Toiledau* i'w cael yn y prif faes parcio oddi ar Stryd y Farchnad. Codir tâl o 20c. am ddefnyddio'r rhain.

*Cyfleusterau eraill:* Tref farchnad ydi Corwen, gydag amryw o siopau, caffis a thafarndai.

**Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.**